EVANS, STEPHEN (1818 - 1905), Cymmrodor

Enw: Stephen Evans
Dyddiad geni: 1818
Dyddiad marw: 1905
Priod: Evans (née Chase)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Cymmrodor
Maes gweithgaredd: Addysg; Eisteddfod; Hanes a Diwylliant; Dyngarwch
Awdur: Walter Thomas Morgan

brodor o Lanarth, Sir Aberteifi. Aeth yn ieuanc i Lundain a sefydlodd yno fusnes ystordy llewyrchus yn Old Change. Yn y pum degau o'r ganrif ddiwethaf dechreuodd gydweithio â Syr Hugh Owen yn ei frwydr dros addysg yng Nghymru a bu'n gefnogydd brwd i'r Coleg yn Aberystwyth. Yr oedd yn eisteddfodwr eiddgar ac yn noddwr hael i gerddorion a chyfansoddwyr Cymreig. Bu'n un o aelodau amlycaf pwyllgor Llundain pan ymwelodd ' Côr Mawr Caradog ' â'r ddinas yn 1873, a phan ailffurfiwyd Cymdeithas y Cymmrodorion yn y flwyddyn honno yn y Freemasons Tavern, fel canlyniad i'r brwdfrydedd a enynnwyd gan lwyddiant y côr, etholwyd ef yn gadeirydd y cyngor, a llanwodd y swydd hyd ei farw. Bu farw 21 Awst 1905 yn ei dŷ yn Brockley, a'i gladdu yn Chislehurst. Bu'n briod, a chafodd ddwy ferch.

Awdur

Walter Thomas Morgan, (1912 - 1990)

Ffynonellau

The Welsh Gazette, 24 a 31 Awst 1905

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1905-6, 122

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1904-5

Y Cymmrodor, 1

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734411

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Morgan, W. T., (1953). EVANS, STEPHEN (1818 - 1905), Cymmrodor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-STE-1818

Copïo'r cliptrwydd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government